| | PRYDERON A NODWYD YN DILYN ARCHWILIAD DIRYBUDD AR HAP O LANWEITHDRA AR 27 a 28 MAWRTH 2012 | CAMAU GWEITHREDU | PERCHNOGAETH | AMSERLEN |
|---|---|---|---|---|
| CYF. | CERBYDAU | | | |
| 2.11<br>2.12<br>2.29<br>2.45<br>2.46<br><br>2.54 | **Cerbydau ddim yn cael eu glanhau i safon dderbyniol o lanweithdra.** | • Mae dull archwilio Cerbyd a Gorsaf ar-lein am gael ei ddefnyddio, a bydd hyn yn caniatáu i bob gorsaf archwilio eu cerbydau/Gorsaf eu hunain. Diweddarwyd y dull hwn yn ddiweddar er mwyn gallu canfod pa gerbydau sydd angen eu gwella, ac mae'n cynnwys system adrodd gadarn sy'n dangos cydymffurfiad â glanweithdra a chynlluniau gweithredu. Mae'r safonau y disgwylir eu cyflawni wedi eu gosod ar leiafswm o 80% o gerbydau'n gorfod cael eu harchwilio ym mhob Gorsaf, a lleiafswm o 80% o gyflawniad o ran cydymffurfio â'r safonau sydd wedi eu gosod yn y dull archwilio.<br>• Dosberthir cynlluniau a rhaglenni glanhau cerbydau safonol i bob gorsaf, a gofynnir iddynt gael eu cadw mewn ffeil at ddibenion archwilio.<br>• Bydd y ffeiliau hyn yn cael eu harchwilio ymhen chwe mis er mwyn asesu cydymffurfiad, ac adroddir amdano i Bennaeth y Gwasanaeth.<br>• Bydd unrhyw rannau sydd wedi rhydu ar y tu isaf i gadeiriau yn y mannau o'r cerbyd a ddefnyddir gan gleifion yn cael eu hail-baentio bob chwe wythnos ar | Pennaeth y Gwasanaeth<br>Swyddogion Cymorth Clinigol<br>Rheolwyr Ardal<br>Arweinwyr y Tîm Clinigol<br>Goruchwylwyr yr Orsaf<br><br>Gwasanaethau Fflyd | Ionawr 2012-cwblhawyd<br><br>Ebrill 2012-cwblhawyd<br><br>Medi 2012<br><br>Ar adeg rhoi gwasanaeth i'r cerbyd |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | adeg rhoi gwasanaeth i'r cerbyd. | | |
| 2.30<br>2.47 | **Canfuwyd bod cadeiriau yn y man a ddefnyddir gan gleifion mewn cerbydau wedi rhwygo, gan ganiatáu i hylifau, baw a bacteria suddo i'r defnydd.** | • Nodyn atgoffa i'r staff er mwyn rhoi gwybod iddynt ar unwaith am y seddi sydd wedi rhwygo, a llenwi a chyflwyno taflen atgyweirio i'r Adran Fflyd.<br>• Y Gwasanaethau Fflyd i brynu gwaelodion cadeiriau sbâr gan gyflenwyr ar gyfer lefel stoc. Defnyddio clustogwr dodrefn lleol i atgyweirio gwaelodion y cadeiriau sydd wedi eu difrodi a gellir wedyn eu dychwelyd i'r lefel stoc.<br>• Prynu defnydd a glud clustogi dodrefn i wneud atgyweiriadau brys; bydd hyn yn caniatáu i'r fflyd wneud atgyweiriadau brys, er mwyn gallu cwtogi'r cyfnod pan na ellir defnyddio'r cerbydau yn gyflym. | Yr holl staff ambiwlans<br><br>Gwasanaethau Fflyd | Hydref 2012 |
| 2.13<br>2.52 | **Gel/ewyn alcohol ddim ar gael yn yr holl gerbydau.** | • Anfon cyfathrebiad i'r holl orsafoedd ambiwlans i atgoffa'r staff i sicrhau bod stoc ddigonol o gynwysyddion gel bob amser ar gael ar gyfer y cerbydau, a hefyd, os nad oes unrhyw stoc i'w ailgyflenwi, mae angen rhoi gwybod i'r Rheolwr Llinell am hynny.<br>• Adolygiadau misol o ganfyddiadau archwiliadau ar-lein ynglŷn ag adran 1.7 o'r dull arwyddion negeseuon electronig o archwilio cerbydau sy'n nodi y dylid sicrhau bod stoc digonol o beiriant cyflenwi a glanweithydd ar gyfer dwylo ar gael i'w defnyddio mewn cerbyd.<br>• Arweinwyr Rhanbarthol Atal a Rheoli Heintiau i gynnal archwiliadau ar hap unwaith y mis. | Yr holl staff ambiwlans<br>Arweinydd Rheoli Heintiau<br>Swyddogion Cymorth Clinigol | Ebrill 2012-cwblhawyd<br><br>Bob mis<br>Yn barhaus |
| 2.18 | **Pecyn glanhau gwaed a hylifau'r corff wedi mynd heibio'r dyddiad defnyddio.** | • Yr holl staff i gael eu hatgoffa i edrych ar ddyddiadau'r stoc a sicrhau y defnyddir y stoc ar sail cylchdro, fel y bo'n briodol. Newid stoc y mae ei ddyddiad defnyddio wedi mynd heibio fel y bo'n briodol.<br>• Archwiliadau ar hap i gael eu cynnal unwaith y mis ar ddyddiadau stoc, a chylchdroi. | Pennaeth y Gwasanaeth<br>Swyddogion Cymorth Clinigol<br>Rheolwyr Ardal<br>Arweinwyr y Tîm Clinigol<br>Goruchwylwyr yr | Parhaus |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | Orsaf | |
| 2.15 | **Dim bagiau ar gael ar gyfer dillad gwely a llieiniau sydd wedi eu heintio.** | • Yr holl staff i gael eu hatgoffa i sicrhau bod bagiau sy'n toddi mewn dŵr ar gael yn y cerbyd cyn dechrau ar sifft.<br>• Parhau i gynnal archwiliadau yn rheolaidd yn rhan o ddull archwilio ar-lein Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (WAST) ar gyfer Atal a Rheoli Heintiau. | Yr holl staff | Cwblhawyd<br><br>Parhaus |
| 3.33 | **Bag gwastraff clinigol yn llawn mewn cerbyd.** | • Staff i gael eu hatgoffa am bolisi gwaredu gwastraff WAST.<br>• Bagiau gwastraff clinigol bychan i gleifion i fynd gyda'r cleifion i adrannau Damweiniau ac Achosion Brys, gan osgoi'r angen i bentyrru gwastraff clinigol mewn cerbydau. | Pob criw ambiwlans | Cwblhawyd |
| 2.50 | **Dim dyddiad na llofnod ar y blychau eitemau miniog.** | • Anfon cyfathrebiad i'r holl orsafoedd ambiwlans i atgoffa'r staff fod angen rhoi dyddiad a llofnod ar y blychau eitemau miniog.<br>• Arddangos posteri yn y gorsafoedd ambiwlans i amlygu'r mannau lle y mae angen rhoi dyddiad a llofnod.<br>• Bydd hyn yn cael ei archwilio yn rhan o ddull archwilio ar-lein WAST, a'r canlyniadau'n cael eu hadrodd yn ôl i Benaethiaid y Gwasanaeth. | Arweinydd Rheoli Heintiau | Ebrill 2012 cwblhawyd<br><br>Cwblhawyd<br><br>Parhaus |
| **CYF.** | **GORSAFOEDD** | | | |
| **2.1**<br>**2.19** | **Gwelwyd bod adeiladwaith yr adeilad yn dreuliedig ac ystyriwyd bod safon y glanweithdra'n wael.** | • Gwaith adfer i gael ei gynnal fel y bo'r angen.<br><br>• Archwiliad o lanhau'r adeilad i gael ei gynnal y flwyddyn hon, a bydd y canfyddiadau'n cael eu defnyddio fel sail i argymhellion ar gyfer caffael gwasanaeth i lanhau'r adeilad. | Ystadau | Parhaus<br><br>Rhagfyr 2012 |
| **2.2**<br>**2.20**<br>**2.37**<br>**2.57** | **Cyfleusterau gwael mewn gorsafoedd ambiwlans ar gyfer y staff.** | • Cais atgyweirio i gael ei gyflwyno ar gyfer newid y teils sydd o amgylch sinc y staff a hefyd ar gyfer gwneud gwaith ail-selio o amgylch y man sinc.<br>• Gwaith adfer i gael ei wneud fel y bo angen. | Arweinydd y Tîm Clinigol | Hydref 2012 |
| **2.3**<br>**2.22** | **Gwelwyd bod mopiau'n cael eu** | • Anfon cyfathrebiad at yr holl Swyddogion Ardal Ambiwlans ynglŷn â'r weithdrefn gywir ar gyfer cadw mopiau cod lliwiau, a'u cynnal a'u cadw, mewn | Arweinydd Rheoli Heintiau | Cwblhawyd<br>Ebrill 2012 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **2.38** | **cadw mewn bwcedi â dŵr ynddynt.** | gorsafoedd. Hefyd, yr angen i newid pennau mopiau unwaith yr wythnos, gyda dalen llofnod i ddangos hynny.<br>• Bydd y weithdrefn hon yn cael ei harchwilio ymhen chwe mis. | Arweinydd y Tîm Clinigol<br>Rheolwyr Ardal | Hydref 2012 |
| **2.4** | **Dim peiriant cyflenwi sebon na daliwr tyweli papur ar gael wrth y sinc yn y garej.** | • Gwnaed cais ar 07/08/12 i'r rhain gael eu gosod. | Swyddog Cymorth Clinigol | Hydref 2012 |
| **2.5**<br>**2.21**<br>**2.26**<br>**2.43** | **Mannau storio llychlyd ac anniben, silffoedd wedi staenio, a blychau'n cael eu cadw ar lawr, gan ei gwneud hi'n anodd ei lanhau.** | • Cypyrddau i gael eu glanhau a'u cynnal a'u cadw i safon dderbyniol. Bydd hyn yn cael ei archwilio yn rhan o'r system arferol o adrodd am archwiliad.<br>• Gweithredu rhaglen a chynllun glanhau ar gyfer yr Orsaf Ambiwlans cyn gynted â phosibl.<br>• Bydd y broses hon yn cael ei harchwilio.<br>• Sicrhau y cedwir yr holl flychau ar silffoedd, er mwyn gwneud yn siŵr y gellir glanhau. | Holl Staff yr Orsaf | Cwblhawyd Ebrill 2012<br><br>Mawrth 2013 |
| **CYF.** | **GWYBODAETH AC ARFERION GWAITH Y STAFF** | | | |

<table>
<tr>
<td>2.53</td>
<td>Nid oedd yr holl staff wedi cael hyfforddiant ar Reoli Heintiau yn ystod y 12 mis diwethaf.</td>
<td>
<ul><li>Nifer presennol y staff a gafodd hyfforddiant hyd at ddiwedd mis Mawrth 2012:</li></ul>
<table>
<tr><th>Disgyblaeth</th><th>Cyfanswm nifer y staff</th><th>Wedi cael sesiwn Atal a Rheoli Heintiau Datblygiad Proffesiynol Parhaus 2011-12</th><th>Canran y Presenoldeb</th></tr>
<tr><td>Parafeddygaeth</td><td>918</td><td>846</td><td>92%</td></tr>
<tr><td>Technegydd Meddygol Brys/Gwasanaeth Dibyniaeth Uchel</td><td>547</td><td>395</td><td>72%</td></tr>
</table>
<ul>
<li>Mae sesiynau diweddaru ar Atal a Rheoli Heintiau wedi newid o fis Ebrill 2012 ymlaen i fod yn broses Cymhwysedd wedi ei Seilio ar Waith sy’n golygu y bydd pob aelod o staff yn cael ei asesu yn y gweithle. Bydd hyn yn sicrhau yr arsylwir sgiliau ac yr asesir gwybodaeth o fewn yr amgylchedd clinigol.</li>
<li>Bydd adolygiad o’r broses hon yn cael ei gynnal.</li>
<li>Rheolwyr i sicrhau bod gan y staff amser wedi ei neilltuo i fynd i sesiynau diweddaru Atal a Rheoli Heintiau.</li>
<li>Addysg i fod ar gael trwy Fewnrwyd yr Ymddiriedolaeth.</li>
</ul>
</td>
<td>Aelod Unigol o Staff<br><br>Tîm Hyfforddi Arweinwyr y Tîm Clinigol, Penaethiaid y Gwasanaeth<br><br>Arweinydd Rheoli Heintiau</td>
<td>Medi 2012<br><br>Rhagfyr 2012</td>
</tr>
<tr>
<td>2.55</td>
<td>Roedd y staff yn teimlo nad oeddent yn cael digon o amser glanhau i wneud gwaith glanhau ar y lefel ofynnol.</td>
<td><ul><li>Mae amser glanhau penodedig yn dod yn fwy heriol i’w neilltuo oherwydd y cynnydd sylweddol mewn Galw, ac mae hyn yn golygu bod criwiau i ffwrdd o’r gorsafoedd am gyfnodau hwy o amser bob tro. Mae hwn yn fater sy’n codi trwy’r Ymddiriedolaeth gyfan ac mae angen ei gyfeirio i lefel Uwch Reolwyr / y Cyfarwyddwr i’w ystyried a’i ddatrys.</li></ul></td>
<td>Penaethiaid y Gwasanaeth</td>
<td>Hydref 2012</td>
</tr>
<tr>
<td>2.56</td>
<td>Cyflenwad annigonol o wisgoedd ffurfiol i staff.</td>
<td><ul><li>Mae’r staff yn cael nifer penodol o wisgoedd ffurfiol. Pan fo cyflwr y rhain yn mynd yn wael i’w gwisgo, gallant archebu gwisgoedd trwy eu Rheolwr Ardal gan gyfnewid yr hen un am un newydd, ac nid oes unrhyw gyfyngiadau ar hyn.</li>
<li>Mae’r Ymddiriedolaeth yn cydnabod y bu problemau ynglŷn ag ansawdd y gwisgoedd a gyflenwyd i’r staff yn flaenorol. Er mwyn mynd i’r afael â hyn, mae’r</li></ul></td>
<td>Yr holl staff<br>Arweinwyr y Tîm Clinigol,<br>Rheolwyr Ardal,<br>Penaethiaid y</td>
<td>Mai 2013</td>
</tr>
</table>

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Ymddiriedolaeth yn gweithio gyda Gwasanaethau Ambiwlans y GIG yn Lloegr ar hyn o bryd fod yn rhan o'r prosiect caffael gwisgoedd ambiwlans cenedlaethol o 1 Ebrill 2013 ymlaen. Bydd y contract hwn yn darparu gwell gwerth am arian oherwydd arbedion maint, ond hefyd gwisgoedd llawer gwell ar gyfer ein staff.<br>• Mae cynrychiolwyr y staff yn cymryd rhan weithredol yn yr ymarfer hwn. Bydd prawf yn cael ei gynnal i benderfynu pa mor briodol yw'r gwisgoedd i'w defnyddio, a hynny cyn gynted ag y bydd y broses dendro yn caniatáu. | Gwasanaeth<br><br>Y Grŵp Gwisgoedd ffurfiol | Mai 2013 |
| 2.58 | **Nid oedd y staff yn siŵr pa bryd y mae'n rhaid gwisgo menig.** | • Ymdrinnir â diweddariadau Rhagofalon Safonol Rheoli Heintiau yn y sesiynau Rheoli Heintiau bob blwyddyn, ac mae hyn yn cynnwys hylendid dwylo a gwisgo menig.<br>• Cyfathrebiad a phosteri i'w harddangos yn y gorsafoedd i gael eu hanfon i bob Rheolwr Ardal ynglŷn â Hylendid Dwylo a gwisgo menig yn gywir.<br>• Mae'r staff yn gallu cysylltu â'r Arweinydd Rheoli Heintiau i gael cyngor ar unrhyw adeg trwy e-bost neu ffôn.<br>• Dogfen Canllawiau a Gweithdrefnau Atal a Rheoli Heintiau WAST i fod ar gael ar-lein a chopi caled ym mhob gorsaf, gyda chanllawiau eglur ar wisgo menig a Hylendid Dwylo. | Y Tîm Hyfforddiant<br>Aelodau unigol o'r staff<br><br>Arweinydd Rheoli Heintiau | Medi 2012<br><br>Cwblhawyd<br><br>Cwblhawyd |
| 2.59 | **Nodwyd bod staff yn gwisgo llawer gormod o dlysau.** | • Yn rhan o Weithredu Polisi WAST ynglŷn a gwisgoedd ffurfiol, bydd archwiliadau rheolaidd o gydymffurfiad yn cael eu cynnal a fydd yn cynnwys gwisgo tlysau.<br>• Atgoffir Arweinwyr Tîm i edrych ar y staff yn eu timau i weld pa un a ydynt yn gwisgo tlysau amhriodol, ac i roi sylw i'r mater ar y pryd.<br>• Archwiliadau Hylendid Dwylo i gychwyn yn yr holl Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys ar draws Cymru, a bydd gwisgo tlysau yn cael ei fonitro yn rhan o hynny. | Grŵp Gweithredu Gwisgoedd ffurfiol<br>Arweinwyr Tîm<br>Arweinydd Rheoli Heintiau | Mai 2013<br><br>Hydref 2012 |
| 3.3 | **Archwiliadau Cerbyd a Gorsaf** | • Ar hyn o bryd, mae hon yn broses barhaus gydag adborth misol i Benaethiaid y Gwasanaeth, Swyddogion Ardal Ambiwlans ac Arweinwyr Tîm Clinigol. | Yr holl staff<br>Arweinydd Rheoli Heintiau | Parhaus |